AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 223 Chwefror – Mawrth 2020

# Gwyliedydd





# O’R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Erbyn i’r *Gwyliedydd* hwn ddod o’r wasg, bydd hi’n fis ers i ni groesawu 2020. I’r rhai sy’n cofio croesawu’r flwyddyn 2000, mae’n anodd deall sut mae’r amser wedi mynd. Braidd yn hwyr, efallai, ond a gaf i ddymuno Blwyddyn Newydd Fendithiol i chi! Er gwaethaf pawb a phopeth, a’r sefyllfa wleidyddol ansicr ym Mhrydain a thramor, ymddiriedwn yn Nuw y byddwn yn cyrraedd diwedd 2020 yn sicr yn ei gariad, ac yn falch o groesawu blwyddyn newydd arall ym mywyd y byd rhyfeddol hwn.

Roedd ‘croeso’ yn thema bwysig i Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd y llynedd. Cawsom groesawu’r Parchg Ddr Trevor Hoggard yn Arolygydd Cylchdaith Cymru. Hefyd, roedd Mrs Delyth Davies, ein Swyddog Dysgu a Datblygu, a Mrs Maryl Rees, Ysgrifennydd y Synod, a minnau, yn ddiolchgar am y croeso a gawsom ym mhob man, wrth i ni deithio ledled Cymru i gynnal cyfarfodydd ar gyfer Archwiliad Cenhadaeth a Gweinidogaeth Cylchdaith Cymru. Cawsom sgyrsiau gwerthfawr gyda swyddogion ac aelodau ein capeli, a chyda phob Arweinydd Ardal a gweinidog gweithredol. Fe wnaeth pobl ymdrech fawr i’n croesawu mewn ffyrdd ymarferol, ac roedd rhannu gwybodaeth a meddyliau hefyd yn rhan bwysig o’r croeso. Diolch yn fawr i bawb.

Yn gynnar iawn ym mhroses yr Archwiliad, daeth yn amlwg pa mor bwysig yw cysyniad croeso i ni i gyd. Mi wnaeth bron pob capel hunaniaethu fel croesawgar a chyfeillgar. Gwyddom fod estyn a derbyn croeso cynnes yn bwysig yng ngolwg pobl Cymru; mae hefyd yn nodweddiadol o Fethodistiaid. Rhowch y ddau at ei gilydd, ac mae potensial am gyfuniad pwerus iawn! Ac eto, cefais fy hun yn meddwl, ac weithiau yn gofyn yn y cyfarfodydd, croesawgar tuag at bwy? Ein gilydd, ie, ond beth am bobl eraill? Mae’r nifer sy’n mynychu oedfaon yng Nghymru, a thrwy’r Cyfundeb Methodistaidd Prydeinig, yn disgyn, ond rydym yn byw mewn cymdeithas lle mae cymaint o bobl yn unig ac yn dyheu am groeso cynnes. Felly beth sydd ar goll? Mae’n gwestiwn pwysig, rwy’n credu.

Rydym ni’n ymfalchïo ein bod yn groesawgar yn yr Eglwys Fethodistaidd – ac mae hynny yn dda ac yn iawn – ond rwy’n credu bod gennym ni gyfle i brofi hyn eleni wrth i ni ystyried adroddiad y Gynhadledd Fethodistaidd, “Duw Mewn Cariad sy’n Ein Huno” (www.methodist.org.uk/MandR19>). Rydym ni’n dweud ein bod ni’n croesawu pawb, ond ydym ni, mewn gwirionedd? Mae’r adroddiad yn trafod polisïau’r eglwys ar briodas a pherthnasoedd, gan gynnwys perthnasoedd un rhyw. Erbyn cyfarfod Synod Cymru ym mis Ebrill, lle bydd pleidlais ar bum darpar benderfyniad a dderbyniwyd o Gynhadledd y llynedd, er mwyn cyfarwyddo ein cynrychiolwyr i’r Gynhadledd eleni, dylai pob Ardal yng Nghylchdaith Cymru fod wedi cael cyfle i drafod yr adroddiad a’r mater hanfodol hwn sy’n hollbwysig wrth inni ystyried pwy ydym ni fel eglwys. Mae Duw yn croesawu pawb: a allwn ninnau wneud unrhyw beth llai? Bydd pleidlais y Gynhadledd yn yr haf yn penderfynu, ac mae’n teilyngu ein gweddïau.

Yn y cyfamser, mae natur a dyfodol Cylchdaith Cymru a gwaith Cymraeg yr Eglwys Fethodistaidd yn parhau i gael sylw, wrth i broses yr Archwiliad fynd rhagddi. Penderfynwyd cynnal yr Archwiliad yn dilyn sgyrsiau Synod Cymru gyda Wales Synod, y dalaith Saesneg ei hiaith yng Nghymru, am y posibilrwydd o greu un Synod newydd, dwyieithog. Yn ystod y sgyrsiau hynny, daeth yn amlwg fod angen rhoi sylw i sefyllfa ariannol Cylchdaith Cymru, gan fod cyfran uchel o’n harian wrth gefn yn talu am weinidogaeth i’r Gylchdaith ac yn mynd ar roi sybsidi i gyfraniadau’r capeli a’r Ardaloedd. Ymddengys fod angen gweithredu ar frys neu bydd y cronfeydd wedi eu dihysbyddu cyn pen pedair blynedd. Os felly, dyna fyddai diwedd Cylchdaith Cymru fel rydym yn ei hadnabod. Sut felly yr ydym ni, pobl Dduw a elwir yn Fethodistiaid, am barhau i groesawu’r rhai sy’n siarad Cymraeg yn enw Iesu Grist? Sut y gallwn sicrhau dyfodol cynaliadwy i’r gwaith hwn, er mwyn y cenedlaethau sydd i ddod? Unwaith eto, gofynnwn am eich gweddïau wrth i swyddogion y Cyfundeb, y Synod a’r Gylchdaith weithio ar gynigion i’w rhoi gerbron y Synod ym mis Ebrill, gan ddefnyddio gwybodaeth o gyfarfodydd yr Archwiliad. Llawer o ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfodydd pwysig iawn hynny, gan ddangos croeso cynnes.

Mae tymor y Grawys yn agosáu yn barod a chyn bo hir byddwn yn paratoi ein hunain unwaith eto i ddathlu’r Pasg ac atgyfodiad Iesu a’i rodd o fywyd newydd. Mewn hinsawdd wleidyddol a chymdeithasol fel yr un presennol, a chan ystyried beth sy’n mynd ymlaen ym mywyd ein Heglwys, efallai fod arnom angen meithrin agwedd weddigar, edifar ac adfyfyriol fwy nag erioed. Boed inni droi at Dduw, sydd bob amser yn raslon a chariadlon a llawn tosturi. Bydd yn ein cynnal, ac yn ein croesawu yn ôl, trwy Iesu, bob amser. Diolch fo i Dduw.



## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Chwefror 2020**
2 Morgannwg
9 Ceredigion
16 Gwyliau
23 Môn ac Arfon

**Mawrth 2020**
Ar Sabothol

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau’r Cadeirydd ac ar bawb sy’n pregethu’r Efengyl.

Dymunwn yn dda i Jennie ar ei chyfnod Sabothol. Diolch, Jennie a Maryl a Delyth, am eich holl waith yn cynnal yr Archwiliad.


Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 223**
**CHWEFROR – MAWRTH 2020**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy’r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk


**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**
2 MAWRTH 2020

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i “Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru”

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr: Pigo Dail Te, gan Aliaksandr Mazurkevich

# Rhoddion

Diolch i bawb, yn gapeli ac unigolion, am eich cyfraniadau hael iawn tuag at gostau cynhyrchu a dosbarthu’r *Gwyliedydd* ac am y tanysgrifiadau a ddaeth i law ar ddechrau blwyddyn. Diolch i’r capeli hefyd am roi gwybod sawl copi y mae arnynt ei eisiau. Mae’n costio tua £1 i argraffu pob copi (gyda chost postio ar ben hynny) ac nid oes arnom eisiau bod yn wastraffus. Cofiwch fod yr apêl yn dal yn agored os dymunir cyfrannu.

| | |
|---|---|
| • D.H. Evans, Fferm Nant y Crai, Gronant | £10-00 |
| • Rehoboth, Llanbedrog | £100-00 |
| • Bethel, Mynydd y Fflint | £40-00 |
| • Tabernacl, Llanfyllin | £200-00 |
| • Gareth Tilsley, Bangor | £5-00 |
| • Bethel, Prestatyn | £100-00 |
| • Emyr a Gweryl Evans, Coedpoeth, er cof am eu rhieni | £20-00 |
| • Trygan Roberts, Abergele | £5-00 |
| • Capel y Briw, Llanrhaeadr ym Mochnant | £20-00 |
| • Elan Griffiths, Casnewydd | £30-00 |
| • Parchg John Barnett, West Kirby | £50-00 |
| • Hebron, Rhewl, Llangollen | £20-00 |
| • Dienw | £120-00 |
| • Parchg Dilys Jones, Amwythig, er cof am ei phriod y Parchg Alec Jones | £25-00 |
| • Dienw | £50-00 |
| • Dienw | £50-00 |
| • Siencyn a Glenys Griffith, Llanharan | £5-00 |
| • Rehoboth, Corwen | £50-00 |
| • Prifysgol Bangor | £ 10-00 |
| • Ceinwen Hughes, Bethesda | £ 5-00 |
| • Elizabeth a Bob, Pentrecelyn, er cof am Megan a Winston Williams | £ 15-00 |
| **Cyfanswm** | **£930-00** |

**Ymweliad Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd, 7-9 Chwefror 2020**

Bydd y Parchg Ddr Barbara Glasson, Llywydd y Gynhadledd, a’r Athro Clive Marsh, yr Is-lywydd, yn ymweld â Synod Cymru a Wales Synod rhwng 7-9 Chwefror 2020. Croeso cynnes i unrhyw un i’r digwyddiadau canlynol:

Dydd Sadwrn 7 Chwefror – cyfarfodydd gyda’r ddau ar eu thema, “Felly, beth yw’r stori?”

10.30yb-12.00 - Eglwys Fethodistaidd St David, Craig-y-Don, Llandudno, LL30 1YY – gyda’r Parchg Ddr Barbara Glasson

10.30yb-12.00 – Eglwys Fethodistaidd Jersey Marine, Castell-nedd, SA10 6JH – gyda’r Athro Clive Marsh

Dydd Sul 8 Chwefror

10.30yb – Canolfan Fethodistaidd St Paul, Aberystwyth SY23 2NN – gwasanaeth Cymun dwyieithog yng nghwmni Barbara, Clive ac eraill

Manylion pellach: Parchg Ddr Jennie Hurd (jennifer.hurd@methodist.org.uk; 01691 830926)



**OEDFA DDATHLU**

Croeso cynnes i bawb i oedfa arbennig yng Nghapel Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, CF10 1AJ am 7yh ar 5 Mawrth, 2020, i ddathlu pedwar can mlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620. Y cyfieithiad diwygiedig hwn, gwaith yr ysgolhaig disglair Dr John Davies, Mallwyd, ar sail Beibl William Morgan 1588, fu’r cyfieithiad safonol yng Nghymru hyd yr 20fed ganrif. Dewch i ddiolch a dathlu ein treftadaeth.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts

Ni ellir ond rhyfeddu at y gwaith llenyddol a ddaeth o law William Rowlands (Gwilym Lleyn, 1802-65). Ganwyd ef ym Mryncroes, Llŷn a'i fagu tan oedd yn 18 oed yn Fethodist Calfinaidd. Dechreuodd bregethu gyda'r Wesleaid yn 1821 ac wedi cyfnod fel pregethwr lleyg, derbyniwyd ef yn weinidog gan y Cyfundeb a'i anfon i'w ofalaeth gyntaf ym Merthyr yn 1831. Bu'n weinidog ar 13 o gylchdeithiau yng ngogledd, de a chanolbarth Cymru. Bu yn Llanidloes a Machynlleth ar ddau achlysur cyn ymddeol i Groesoswallt lle bu farw ar 21 Mawrth 1865. Claddwyd ef ym mynwent Caerau, Llanidloes.

Neb llai na Syr William Llewelyn Davies (1887-1952) a fu'n llyfrgellydd cenedlaethol sydd yn gyfrifol am fanylion ei fywyd yn y Bywgraffiadur Cymreig. Mae ef yn rhoi sylw arbennig i gyfrol arloesol Gwilym Lleyn a gyhoeddwyd yn 1869 sef ***Llyfryddiaeth y Cymry*** sy'n rhoi hanes llyfrau Cymraeg am Gymru a'i thrigolion o 1546 i 1800. Roedd hwn yn waith enfawr a defnyddiol o gofio nad oedd llyfrgelloedd yn Aberystwyth, Bangor na Chaerdydd pan gyhoeddwyd y gwaith dan olygyddiaeth D Sylvan Evans bedair blynedd ar ôl marw Gwilym Lleyn.

Bu'r awdur yn olygydd yr ***Eurgrawn Wesleaidd*** am gyfanswm o naw mlynedd ac yn gyfrifol am sawl cyfrol yn ymwneud â'r dadleuon enwadol heb sôn am baratoi gwaith a ddefnyddiwyd gan Isaac Foulkes yn ei ***Eiriadur Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (Lerpwl 1870)***. Bu ganddo ddiddordeb mewn llawysgrifau hynafol ac ef oedd y cyntaf i drafod yn Gymraeg ***Codex Bezae*** sef y Testament Newydd a ysgrifennwyd ar femrwn ar ddechrau'r 5ed ganrif gyda Groeg a Lladin wyneb yn wyneb. Yn 1849 cyhoeddodd ddisgrifiad o'r ***Codex Alexandrinus*** sef dogfen o'r 5ed ganrif o'r Hen Destament a'r Testament Newydd a ysgrifennwyd mewn Groeg. Yn ddiweddarach cafodd William gryn hwyl yn sôn am Constantine Tischendorf (1815-74) yn darganfod y ***Codex Siniaticus*** ym mynachlog Santes Catrin yn Sinai. Dywedir bod y llawysgrif mewn basged ysbwriel a bu ond y dim i'r cyfan fynd i'r tân cyn eu hachub gan Tischendorf.

Er bod ysgolheigion yn cytuno mai'r cyfnod o 1890 i 1930 oedd Oes Aur cyhoeddi esboniadau yn y Gymraeg, teg yw nodi bod ymdrechion cynharach wedi braenaru'r tir i esbonwyr Cymru. Yr esboniad cyntaf cydnabyddedig yn y Gymraeg yw gwaith John Evans (?-1779) sef ***Cyssondeb y Pedair Efengyl; gydag Agoriad Byrr a Nodau Athrawus*** (Bryste 1765). Clerigwr oedd John Evans a raddiodd yn Rhydychen ond a dreuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn Lloegr. Cyfieithodd nifer o lyfrau defosiynol ond ei waith pwysicaf oedd ei esboniad.

Un arall a wnaeth waith enfawr yn y maes oedd Dr George Lewis (1763-1822). Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghaernarfon a Llanuwchllyn ac yn Arolygwr ar rai o'r ysgolion teithiol yn y gogledd. Treuliodd 7 mlynedd olaf ei fywyd fel pennaeth Athrofa Llanfyllin a'r Drenewydd. Ei waith mawr fel esboniwr oedd y 7 cyfrol a gyhoeddwyd o 1802 ymlaen (cyhoeddwyd 3 cyfrol ar ôl ei farwolaeth), sef esboniad ar y Testament Newydd.

Efallai mai dim ond chwa o'r gorffennol yw'r awduron uchod ond gellir dweud gyda sicrwydd bod enw'r Parchedig Peter Williams (1723-96) yn un mae llawer yn ei gofio oherwydd y Beibl Mawr a gyhoeddodd yn 1770 a'r Mynegair Ysgrythurol a ddaeth o'i law yn 1773. Roedd ef yn un o'r pum Tad Methodistaidd cynnar, sef (yn nhrefn eu geni): Gruffydd Jones 1683; Daniel Rowland 1713; Hywel Harris 1714; Pantycelyn 1717 a Peter Williams 1773. Cafodd addysg dda yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin a'i ordeinio'n ddiacon yn 1745. Cafodd dröedigaeth yn 1743 wrth glywed George Whitfield yn pregethu a chan y gwrthodwyd ei urddo yn offeiriad, ymunodd â'r Methodistiaid yn 1747. Bu'n bregethwr tanllyd ar hyd ei oes ac yn awdur emynau a nifer o gyfrolau. Ond, o 1770 pan gyhoeddwyd ei Feibl enwog, dechreuodd cymylau grynhoi uwch ei ben gan fod rhai yn grwgnach bod ei esboniad o Mathew 1: 20 a Luc 1:35 yn blasu o Sabeliaeth, sef newid geiriau'r Ysgrythur i'w bwrpas ef ei hun. Llwyddodd Daniel Rowland i osgoi cweryl cyhoeddus ond bu ef farw yn 1790, yr union flwyddyn y cyhoeddodd Peter Williams ei Feibl Bach a oedd yn dal i gynnwys yr heresi.

Erbyn hynny mab Daniel Rowland, sef Nathaniel Rowland (1749-1831) oedd yn dal yr awenau cyfundebol a chan ei fod yn un a hoffai ddefnyddio ei rym, llwyddodd i berswadio digon yn Sasiwn Llandeilo Fawr yn 1791 i ddiarddel Peter Williams. Eironi o'r mwyaf yw'r ffaith i Nathaniel Rowland yntau gael ei ddiarddel yn Sasiwn Castell Newydd Emlyn yn 1807 am ei fod yn feddwyn. Diwedd chwerw fu i Peter Williams ac mae'r adnodau o Salm 55 ar ei fedd yn Llandyfeiliog yn dweud llawer:
***Canys nid gelyn a'm difenwodd, yna dyoddefaswn; nid fy nghasddyn a ymfawrygodd i'm herbyn; eithr chwychwi, y rhai oedd felys gennym gyd-gyfrinachu, ac a rodiasom i Dŷ Dduw ynghyd.***

Ni phoenodd y werin am Sabeliaeth Peter Williams gan y gwerthwyd ei Feibl wrth y miloedd ymhell i grombil y 19eg ganrif. Erbyn meddwl, onid yw pawb sy'n barod i gamddehongli neu i gamddeall yr Ysgrythur Sanctaidd yn fwriadol yn euog o Sabeliaeth.

### Gofalu am Addoldy Hanesyddol: rhan o adroddiad Judith Alfrey, Cadeirydd Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru yng Nghapel Pendref Dinbych ar Dachwedd 26ain. Trefnwyd y Fforwm gan CADW ac mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol gyrff sydd yn gofalu am wahanol addoldai hanesyddol ar draws Cymru. Mae'r aelodau yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn i adolygu anghenion y sector ac i rannu syniadau ar sut i gynnal addoldai hanesyddol o fewn eu cymunedau. Fel arfer cynhelir y cyfarfodydd mewn addoldai hanesyddol ar draws Cymru er mwyn i'r aelodau gael profi sut y defnyddir ac y gofalir am y gwahanol adeiladau. Mae Pendref Dinbych yn esiampl dda o hyn. Cafwyd crynodeb gan Medwyn Jones o hanes y capel a'r gwaith a wnaed i roi bywyd newydd iddo. Diolch i Medwyn Jones ac i Joanne Balmforth a'r Eglwys Fethodistaidd am eu lletygarwch ardderchog a'r cyfle i werthfawrogi'r adeilad hanesyddol hardd yma.





# SHOSTAKOVICH A PHÊL-DROED

***gan Gareth Blainey***

O'r diwedd! Ar ôl mwy na deng mlynedd ar hugain o ysgrifennu'r golofn hon a bron i ddeng mlynedd ar hugain o sylwebu ar bêl-droed ar BBC Radio Cymru rydw i wedi dod o hyd i reswm da i sôn am gerddoriaeth glasurol a phêl-droed yn yr un erthygl. Y rheswm hwnnw ydy llyfr brynais i a'i ddarllen ychydig fisoedd yn ôl.




Teitl y llyfr sydd wedi'i gyfieithu o'r Rwsieg gwreiddiol i Saesneg ydy "Shostakovich and Football - Escape to Freedom" ac ynddo mae'r awdur Dmitri Braginsky yn manylu ar dddiddordeb mawr y cyfansoddwr o Rwsia Dmitri Shostakovich (1906-75) mewn pêl-droed. Treuliodd Braginsky, sy'n Athro Prifysgol mewn Cerddoriaeth, bedair blynedd ar ddeg yn casglu deunydd sy'n profi mor hoff o bêl-droed oedd y gŵr sy'n cael ei gyfri'n un o gyfansoddwyr pwysicaf yr ugeinfed ganrif.

Ymhlith y deunydd mae sgwrs gafodd yr awdur gyda mab Shostakovich, Maxim, a dyfyniadau o nifer fawr o lythyrau anfonodd y cyfansoddwr at ffrindiau yn cynnwys Petr Dementyev, a chwaraeodd i'r tîm roedd o'n eu cefnogi ac yn eu gwylio'n aml sef Zenit Leningrad (Zenit St Petersburg heddiw). Cadwodd Shostakovich gofnodion manwl mewn llyfr o ganlyniadau timau pêl-droed yn Rwsia; ysgrifennodd adroddiad am bêl-droedwyr a gyhoeddwyd yn y papur newydd chwaraeon cenedlaethol "Krasny sport"; ac ym 1929 a 1930 cyfansoddodd waith sydd â phêl-droed yn rhan ohono – y bale "The Golden Age" sy'n portreadu hanes tîm pêl-droed yn yr Undeb Sofietaidd.

Bedair blynedd yn ddiweddarach roedd ei opera "Lady Macbeth of the Mtsenk District" yn llwyddiant ysgubol adeg ei pherfformiad cyntaf yn Leningrad ac wedyn yn Copenhagen, Prâg, Llundain ac Efrog Newydd. Ond pan aeth arweinydd yr Undeb Sofietaidd, Joseph Stalin, i weld perfformiad ym Moscow ym 1936 cerddodd Stalin allan o'r theatr cyn yr olygfa olaf. Ddeuddydd ar ôl hynny cyhoeddodd y papur newydd "Pravda", oedd yn mynegi barn yr arweinydd, erthygl – "Anhrefn yn lle Cerddoriaeth" – yn beirniadu'r gwaith yn hallt am ei gerddoriaeth a'i gymeriadau oedd yn annerbyniol i gyfundrefn Gomiwnyddol Stalin. Chafodd yr opera mo'i pherfformio eto tan 1961 ac am fisoedd lawer bu Shostakovich yn byw mewn ofn ac yn disgwyl cael ei restio.

Oherwydd hynny, fel mae teitl y llyfr yn ei awgrymu 'dihangfa i ryddid' oedd pêl-droed iddo ac yn y rhagair i'r llyfr dywed gweddw Shostakovich Irina :

"Roedd Dmitri'n teimlo'n gwbl gartrefol ym myd pêl-droed. Yn y byd hwn roedd o'n fythol ifanc, hapus a rhydd."

# GAIR BACH

***gan y Parchedig John Pritchard, Llanberis***



**2020**

Unwaith mewn oes y digwydd. Y tro diwethaf, roedd y Rhyfel Mawr newydd ddod i ben. Dim ond bob 101 o flynyddoedd yr ailadroddir y ddau ddigid cyntaf yn oed y flwyddyn: 2020 eleni, a chyn hynny 1919, 1818, 1717 ac ati. Mae yna batrwm hwylus i'r rhif 2020; ac fe glywn ni ddigon yn ystod y flwyddyn am 'Ugain-Ugain' a 'Dau ddeg-Dau ddeg', ond mi fodlonaf fi, ddechrau Ionawr fel hyn, ar ddymuno 'Dwy Fil ac Ugain' ddedwydd i chi.

Unwaith mewn oes, a honno'n oes go faith, yr ailadroddir y patrwm hwn. Y flwyddyn 2121 fydd y nesaf; ond yng ngeiriau'r gân, 'Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd [ac un]?' Beth bynnag am hynny, eleni o leiaf mi ddylai fod yn weddol rwydd i ni gofio pa flwyddyn yw hi wrth nodi'r dyddiad ar lythyr a ffurflen a siec.

Ie, unwaith mewn oes. Ond y gwir, wrth gwrs, yw mai unwaith yn unig y daw pob blwyddyn a phob dydd. Unwaith y daw pob profiad a phob cyfle. Ni roddwyd i ni'r gallu i ail-fyw'r profiadau nac i ail-fwynhau'r bendithion a ddaw trwy ragluniaeth Duw. Fe'u derbyniwn; fe'u mwynhawn; ac fe'u gwerthfawrogwn. Mi ganmolwn yr Arglwydd amdanynt tra pery'r cyfan, ac ymhell wedi hynny. Yn y byd o amser a'i gyfyngiadau y'n gosodwyd ynddo, profiadau a bendithion a chyfleoedd y funud a'r dydd yw bron popeth a feddwn. Ond rhoddwyd i ni'r gras a'r gallu i'w trysori ac i wneud yn fawr ohonynt. Yn hyn o beth, mor werthfawr yw cyngor yr Apostol Paul, 'Daliwch ar eich cyfle' (Effesiaid 5:16 a Colosiaid 4:5).

Ar hyd y flwyddyn newydd, Duw a'n cynorthwyo i drysori nid yn unig fendithion y funud a'r awr ond hefyd yr holl fendithion arhosol a ddaw i ni trwy Efengyl ei gariad achubol yn Iesu Grist.

## Gair o ddiolch

Diolch yn fawr a phob bendith i'r Parchedig Tudur Rowlands, sydd wedi ymddeol ddiwedd Ionawr o'i waith fel Gweinidog Awdurdodedig yn yr Eglwys Fethodistaidd, yn dilyn cyfnod o salwch difrifol. Daeth Tudur yn Weinidog Awdurdodedig am y tro cyntaf yn ôl ym 1968 ac fe wasanaethodd yn ffyddlon dros y blynyddoedd, gan gynnwys cyfnod fel Arweinydd Ardal Dyffryn Clwyd Cylchdaith Cymru. Cynhelir digwyddiad arbennig i ddiolch i Tudur yn y gwanwyn. Dymuniadau gorau iddo.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Pendref, Yr Wyddgrug

**DYMUNIADAU GORAU**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r Parchg J Bryn Jones sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 95. Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Vera Jones, Mrs Myra Parry a Mrs Meri Morris – i gyd wedi gwella yn dilyn cyfnodau yn yr ysbyty. Braf iawn yw eich cael yn ôl gyda ni.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn fel Eglwys â'r Parchg J. Bryn Jones a Mrs Vera Jones ar golli brawd yng nghyfraith Mrs Jones, sef y Parchedig Ganon Trefor Jones, Bae Penrhyn, a fu yn gwasanaethu ym Mhendref lawer Sul.

Ar 21 Tachwedd, a hithau'n 94 oed, bu farw Mrs Vera Williams, gweddw'r diweddar Barchg Elfyn G. Williams. Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parchedigion Marc Morgan ac Eirlys Griffith Evans. Mae ein cydymdeimlad fel Eglwys gyda ei mab Jonathan a'i merch Heather a'u teuluoedd.
**GOHEBYDD .** RICHARD JONES

### St Paul, Aberystwyth

**GWELLHAD**
Pleser mawr oedd gweld y Parchedig Marty Presdee yn ôl yn ein plith unwaith eto wedi llawdriniaeth ar ei phen-glin ym mis Tachwedd. Roedd yn dda iawn gennym hefyd glywed bod Mr Ray Foster-Evans yn gwella ar ôl iddo gwympo yn y stryd.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau cynhesaf i Mrs Buddug Jenkins, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed.

**GWASANAETHAU**
Ar drydydd Sul yr Adfent daeth y Diacon Jon Miller atom am y tro cyntaf a chawsom oedfa fendithiol gydag ef. Cynhaliwyd gwasanaeth carolau hyfryd ar Sul olaf yr Adfent dan arweiniad Mrs Ann Price. Dewiswyd saith carol gan aelodau o'r gynulleidfa a phob un yn dweud gair am arwyddocâd arbennig y garol iddynt. Ar Sul olaf y flwyddyn arweiniodd y Parchedig Marty Presdee wasanaeth dwyieithog gyda'r gynulleidfa Saesneg.
**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

### Eglwys Unedig Colwyn

**CROESAWU GWEINIDOG NEWYDD**
Cawsom y pleser o groesawu'r Parchedig Ddr Trevor Hoggard atom ar 29 Rhagfyr. Yn ystod y gwasanaeth cawsom gân wreiddiol o Seland Newydd gan Trevor a'i wraig Cathie, hithau yn cyfeilio ar y gitâr. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt yn eu gwaith.

**CYNGERDD CAROLAU ELUSENNOL**
Am y deuddegfed tro, cafwyd Cyngerdd Carolau Elusennol yn Horeb ddechrau mis Rhagfyr, yng nghwmni Côr Alaw o dan arweiniad Mr Dilwyn Price, oedd hefyd yn cyflwyno. Roedd y noson yn llwyddiannus tu hwnt gyda chynulleidfa sylweddol. Cymerwyd rhan hefyd gan gôr o ddeugain o blant o Ysgol Bod Alaw, yn ogystal â'r unawdydd dalentog Elan Fflur Hughes o Ysgol y Creuddyn. Rhoddwyd anerchiad gan y Parchg Ddr Trevor Hoggard ac offrymwyd gweddi gan y Parchg Ifor Jones. Cynhaliwyd y noson er budd ein dwy Hosbis leol, Tŷ Gobaith a Dewi Sant. Ers dechrau'r gyfres ddi-dor hon o gyngherddau, mae dros £17,000 wedi ei godi i'r ddau achos da hyn sydd yn gwneud gwaith mor arbennig. O ganlyniad i'r cyngerdd diweddaraf, bydd ychydig dros £1400 yn cael ei rannu rhwng y ddwy Hosbis. Mwynhawyd lluniaeth ar y terfyn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES



### Horeb, Llanrwst

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob dymuniad da i Mrs Elfrys Roberts, sydd wedi gwella'n dda ar ôl anhwylder diweddar. Rydym yn falch iawn hefyd fod Mrs Catherine Barnett wedi gwella'n dda; pleser mawr oedd cael ei chwmni hi a'r Parchg Philip Barnett gyda ni yn ddiweddar.

**DATHLU**



Llongyfarchiadau i Mrs Heulwen Jones, un o'n haelodau ffyddlonaf, ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Mae Heulwen bob amser yn siriol a llawn hiwmor, yn dal i gerdded i'r oedfa bob bore Sul ac yn gefnogol i bob dim Cymraeg yn y dref. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi ar ran yr aelodau, gan y Parchg Roger Roberts.



**CINIO NADOLIG**
Cawsom ginio i ddathlu'r Nadolig, yng ngwesty'r Eryrod, Llanrwst. Mwynhaodd pawb yr achlysur a braf iawn oedd cael cwmni Mrs Rona Jones.
**GOHEBYDD .** EIRA JONES



### Ebeneser, Dolgellau

**COLLED**
Ar 5 Tachwedd, bu farw Mrs Gwyneth Meredith. Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolch am fywyd Gwyneth yn Ebeneser o dan ofal y Diacon Stephen Roe a'r Chwaer Eluned Williams. Roedd Gwyneth yn aelod gwerthfawr yma a bu'n Drysorydd yr Eglwys am nifer fawr o flynyddoedd gan ddal y swydd hon tan yn ddiweddar. Bydd colled fawr ar ei hôl. Cydymdeimlwn â'i phriod, Wyn, ei mab a'i merch-yng-nghyfraith Dafydd a Sarah a'i wyrion, Cai, Macs a Lucie yn eu profedigaeth.

**GWASANAETH CAROLAU CYTÛN**
Da yw gweld ysbryd cydweithio a chyfeillgarwch trwy Cytûn. Cafwyd Gwasanaeth Carolau Cytûn Dolgellau yng Nghapel y Tabernacl eleni gydag aelodau o Ebeneser a holl Eglwysi'r dref yn cymryd rhan.

**GWASANAETHAU CAROLAU YN EBENESER**
Ar 6 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Sefydliad y Merched ardal De Meirionnydd yn Ebeneser ac yna ar 17 Rhagfyr bu Cyngerdd a Sioe Nadolig plant bach Cylch Meithrin y dref.

Ar fore Sul 22 Rhagfyr cynhaliwyd ein Gwasanaeth Carolau dan ofal y Diacon Stephen Roe gydag amryw o aelodau yn cymryd rhan. Yna cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a mins pei. Braf oedd cael cwmni amryw o drigolion y dref yn y gwasanaeth.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

### Jerusalem, Johnstown

Cafwyd cyfle i ddiolch am dystiolaeth Jerusalem, Johnstown ar hyd y blynyddoedd, mewn oedfa ddwyieithog ar fore Sul 22 Rhagfyr. Nid penderfyniad hawdd yw dod ag unrhyw achos i ben ond dyna oedd rhaid ei wneud yn Jerusalem yn dilyn marwolaeth 3 aelod yn ystod y chwe mis diwethaf gan adael dim ond 2, a'r adeilad yn mynd yn ormod o faich arnynt.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y gweinidog y Parchg. D.Marc Morgan gyda'r Parchg. Siân Williams, un sydd wedi ei chodi i'r weinidogaeth yn y capel, yn traddodi'r bregeth. Arweiniwyd y gynulleidfa at fwrdd y Cymun gan y Parchg Ddr. Jennie Hurd.

Gyda chau Jerusalem, Johnstown, fe



gaewyd yr eglwys olaf yn hen Gylchdaith Cefn Mawr. Dymunwn fendith Duw ar Llinos a Dorothy gan ddiolch iddynt am eu holl waith diwyd ar hyd y blynyddoedd.
**GOHEBYDD .** M. MORGAN

### Jerwsalem, Wrecsam

Ar fore Sul 15 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa fer dan arweiniad Margaret Morgan gyda phaned a mins pei i ddilyn. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd cyfle i fendithio'r "Angylion Nadolig" oedd wedi cael eu gweu gan 3 aelod o'r eglwys – Eira, Sheila a Margaret M. Daeth y syniad gwreiddiol o'r wefan www.christmasangel.net



Mae angylion yn cael eu gweu ac yna eu gadael o amgylch tref neu ardal i bobl eu darganfod. Cylchdaith Fethodistaidd North Shields a Whitley Bay a ddechreuodd yr ymgyrch ond erbyn hyn mae pobl o bob enwad ac mewn llawer man wedi cydio yn y syniad. Gwyddem nad oedd modd gweu digon i'w dosbarthu ar draws Wrecsam felly gofynnwyd i Hosbis Tŷ'r Eos a hoffent eu derbyn a dyna beth ddigwyddodd. Gadawyd yr angylion, gyda'u neges o anogaeth, yn y *Noddfa* er mwyn eu dosbarthu ar ddydd Nadolig. Mae'r patrwm yn un digon syml, felly beth am fynd ar y wefan ac efallai y cawn ni yn Synod Cymru ddosbarthu mwy o angylion y Nadolig nesaf.
**GOHEBYDD .** M. MORGAN

### Cynfaen, Calcoed

Daeth criw da at ei gilydd i'r Oedfa Garolau flynyddol a gynhaliwyd ar bnawn Sul 22 Rhagfyr. Cafwyd eitemau a darlleniadau gan rai o aelodau a chyfeillion y capel yn yr oedfa ddwyieithog hon, yng nghwmni Geraint Roberts, Prestatyn a oedd yn cynorthwyo Mrs Eilwen Thomas. Diolch i Geraint am ddod â'i wyrion gydag ef a diolch iddynt am yr eitemau hyfryd. Roedd un angel hefyd yn ein plith sef Henry Oliver, bachgen bach 18 mis gyda'i fam, Tatiane, a theulu ei dad. Mae Tatiane yn dod o Frasil ac yno y ganwyd Henry. Oherwydd rheolau biwrocrataidd nid ydynt yn cael aros yn y wlad er bod Tatiane yn briod â bachgen lleol. Mae'r eglwys yn ymgyrchu drostynt er mwyn iddynt gael aros yma'n barhaol. Maent yn ffyddlon i'r oedfaon Saesneg pan fyddant yng Nghymru. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a mins peis; diolch i Karen a merched yr eglwys am hyn. Mwynhaodd y plant Santa siocled!
**GOHEBYDD .** M. MORGAN

### Horeb, Croesoswallt

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Ym mis Hydref yn Seion agorwyd tymor y gaeaf gyda swper a sgwrs o dan arweiniad Dewi Lloyd. Yn Horeb ar 11 Tachwedd croesawyd y Parchg Dilys Jones, Amwythig, atom. Testun ei sgwrs oedd Salem, y darlun a baentiwyd gan Sydney Curnow Vosper yn 1908 a chawsom noson ddiddorol. Yn Rhagfyr aeth 27 ohonom i fwyty Station Grill Llansanffraid i fwynhau cinio Nadolig. Roedd y bwyd a'r cwmni yn arbennig. Trist oedd y newyddion am farwolaeth Mrs Ann Rhys William, a fu'n ffyddlon i'r Gymdeithas ac i fudiadau eraill yn y dref. Cydymdeimlwn â'i theulu.

**AELOD NEWYDD**
Cawsom y fraint a'r pleser o groesawu Mrs Melinda Price yn aelod i Horeb. Dymunwn iddi bob hapusrwydd yn ein plith.

**WYNEBU'R DYFODOL**
Ddiwedd Hydref fe ddaeth y Parchg Jennie Hurd a Mrs Delyth Davies atom i Horeb ar ran Cylchdaith Cymru i drafod y sefyllfa bresennol a chynnig syniadau inni i wynebu'r dyfodol. Cafwyd cyfarfod buddiol iawn yn eu cwmni.

**GWASANAETH NADOLIG**
Cynhaliwyd gwasanaeth naw llith a charol fore Sul cyn y Nadolig wedi ei drefnu gan y Parchg Gwilym O Jones a chyda nifer o'r aelodau yn cymryd rhan.
**GOHEBYDD .** EURWYN JONES

# O'R LLAN

***gan y Canon Idris Thomas***

## COFIO D.P.
## – DARLITHYDD DISGLAIR AC ARBENNIG

Mae pawb ohonom yn cofio'r rhai a fu yn ddylanwad arbennig arnom yn addysgol, boed yn yr ysgol gynradd, yn ystod addysg uwchradd a choleg neu fel unigolion yng nghwrs bywyd. Yn Ysgol Gynradd Dinorwig bu'r Prifathro, Owen Williams, a'r athrawes Beryl Lynch yn ddylanwad arnaf; yna yn ddiweddarach y Parchedig E.Gwyndaf Evans, y Parchedig Maurice Donaldson a'r Esgob Roy Davies. Pan euthum i Goleg Dewi Sant yn Llambed yn 1968 deuthum dan ddylanwad y Parchedig Athro David Protheroe Davies – a adwaenid yn annwyl gan bawb fel D.P. Bu farw y llynedd yn bedwar ugain oed. Cafodd ei ordeinio yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu ac aeth yn gurad i blwyf Eglwys y Santes Fair yn ninas Abertawe cyn dod i Goleg Llambed. Yno daeth yn ddarlithydd y Testament Newydd ac yn Ddirprwy Is-ganghellor. Roedd yn ŵr o ddysg a doethineb anhygoel, yn ddylanwadol ar fywydau cymaint o fyfyrwyr a hynny drwy ei gyfeillgarwch, ei ddysgeidiaeth a'i ysgrifau arbennig. Braint i ni y darpar offeiriaid oedd bod wrth ei draed ac roedd yr Eglwys yng Nghymru yn elwa yn ogystal. Chwaraeodd ran allweddol wrth adeiladu'r Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yn Llambed, a ddaeth yn ganolfan o fri rhyngwladol. Hyrwyddodd hefyd astudio crefyddau'r byd. Medrodd gymathu ei agwedd fyd eang â'i ymdeimlad cadarn o'i wreiddiau Cymreig a Chymraeg.

Ond fe'i cofiaf yn bennaf fel gŵr cyfeillgar ac annwyl, agos atoch gyda diddordeb gwirioneddol ynoch ac un hynod hawdd i droi ato ar unrhyw adeg. Roedd i mi yr hyn y dylai offeiriad fod, sef yn ddyn y byd ac yn ddyn Duw – roedd D.P.yn crisialu'r ddeubeth yn berffaith. Roedd yn gymdeithaswr brwd ac yn llawn chwerthin ac fe chwaraeai rygbi i dîm y Coleg. Ond gwefr i bawb oedd ei ddarlithoedd ar y Testament Newydd; edrychem ymlaen yn eiddgar atynt. Pan ddeuai ei dro i bregethu yn y Gosber ar nos Suliau yng nghapel y Coleg, roedd y lle dan ei sang oherwydd roedd y cynnwys yn heriol, cyfoes a pherthnasol ond wedi ei seilio ar ei feistrolaeth ddofn o'r Ysgrythurau, a'r mynegiant yn berl. Rhan o'm cwrs yn Llambed oedd Groeg ac roeddwn yn ansicr a fuaswn byth yn meistroli'r iaith – na pha mor fuddiol fyddai ymgodymu â hyn oll pan fyddwn yn offeiriad mewn plwyf. Un pnawn daeth D.P.ataf gan ddweud ei fod yn awyddus i sefydlu dosbarth i astudio Groeg drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhyw bedwar ohonom a ddangosodd ddiddordeb a dyma ddechrau cyfarfod yn wythnosol. Roedd meistrolaeth D.P. ar y pwnc astrus yn ymlid unrhyw ofnau oedd gennyf a diolchaf iddo hyd heddiw am y fath gymwynas. Diolchaf am David Protheroe Davies ac am ei ysbrydoliaeth a'i anogaeth i mi.

## "A DECHRAU DY GÂN, SIMEON"

Un o fy hoff Wyliau Cristnogol yw Gŵyl Cyflwyno Crist yn y Deml ar yr 2ail o Chwefror. Gelwir yr ŵyl hefyd yn Ŵyl y Canhwyllau a Gŵyl Puredigaeth y Forwyn Fair. Mae'n dynodi deugain niwrnod ers geni'r Iesu ar Ddydd Nadolig. Un pwrpas i'r hyn a ddigwyddodd yn y Deml oedd pwysleisio fod yr Iesu yn uniaethu â'i bobl ei hun trwy gyflawni'r defodau arferol. Roedd hen ŵr a hen wraig yn y Deml y diwrnod hwnnw yn llygad dyst i'r cyfan a ddigwyddodd a'u henwau oedd Simeon ac Anna – y ddau yn cynrychioli crefydd Israel ar ei gorau. Yn llyfr olaf yr Hen Destament sef Malachi ceir addewid penodol yr oedd Simeon ac Anna yn dyheu amdano –"yn sydyn fe ddaw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i'r deml; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod". Geiriau arbennig iawn.

Teitl addas i'r digwyddiad rhyfeddol hwn yn y Deml fyddai "Y Goleuni a'r Cysgod". Ymhob gwasanaeth hwyrol Anglicanaidd, sef y Gosber, caiff cân o gyfarch Simeon i'r baban Iesu deugain niwrnod oed ei chanu ac fe'i hadwaenir fel y "Nunc Dimittis". Yn y canol oesoedd arferai pobl orymdeithio i Eglwysi yn cario canhwyllau ac adrodd wrth fynd eiriau olaf cân Simeon sef "Goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel". Pan oeddwn yn gurad yng Nghaernarfon cynhelid gwasanaeth yr hwyr ar yr ail o Chwefror yn Eglwys hynafol Llanbeblig. Byddai pawb yn cael cannwyll a chan ffurfio gorymdaith byddem yn llafarganu cân Simeon yn ei chyfanrwydd wrth fynd i mewn i'r Eglwys hynafol dywyll (heb olau trydan y noson hon) ar gyfer y gwasanaeth. Cofiwn fod Iesu yn oleuni i bawb. Hoffaf yn fawr ddiweddglo emyn Nicander i'r Ŵyl-

"Cymer i'th freichiau'r Iesu Glân,
A dechrau dy gân, Simeon".

# Masnach Deg

Ar ôl rhoi hanesion y gwahanol gapeli at ei gilydd ar gyfer tudalennau Capel Ni, cyfrifais sawl gwaith roedd y gair 'gwasanaeth' i'w weld – 47, ynghyd ag 'oedfa' 19 gwaith. Ar ddiwedd amryw byd o'r oedfaon hyn roedd 'paned' (crybwyllir 8 gwaith), coffi (4) a lluniaeth (3). Dylai hon fynd allan mwy, meddech chi, os ydi hi'n eistedd yn y tŷ yn chwarae efo ffigurau dibwys ac anniddorol fel hyn.

Beth wnaeth fy ysgogi oedd y cwestiwn, i ba raddau rydym ni yn Synod Cymru yn cefnogi Masnach Deg? O ble mae'r holl de a choffi yn dod, ac o dan ba amodau y mae pobl yn gweithio er mwyn eu cyflenwi i ni gael eu hyfed yn ein festrïoedd.

Tybed, meddwn i wrthyf fy hun, a ddylem fod yn Eglwys Masnach Deg, neu oeddem ni eisoes, hyd yn oed – o leiaf mewn enw. Felly dyna e-bost bach sydyn at y Diacon Stephen Roe. Yn wir, atebodd yntau, tua 10 mlynedd yn ôl fe gytunwyd y byddai pob cyfarfod ar lefel Cylchdaith a Synod yn defnyddio te, coffi a siwgr Masnach Deg. O ran capeli unigol, mae angen i'r Cyfarfod Blynyddol benderfynu yn swyddogol mai dyna fydd y polisi.

Beth amdani, felly? Oni ddylem ni roi blaenoriaeth i hyn? A hyd yn oed mynd mor bell â pheidio â derbyn te a choffi heb y marc Masnach Deg arnynt, yn y capel? O gofio fod traean poblogaeth y byd yn byw ar lai na doler y dydd ac yn cael eu sathru dan draed gan systemau masnachu, dyma ein cyfle ni i wneud rhywbeth bach i helpu, rhywbeth sydd o fewn ein cyrraedd. Mae Masnach Deg yn sicrhau newid ac yn helpu i wella bywydau.

Cofiwch am Bythefnos Masnach Deg, rhwng dydd Llun 24 Chwefror a dydd Sul 8 Mawrth eleni ac edrychwch os gallwch ar wefan ddiddorol https://fairtradewales.com/.
*Ff.R.*



# Capel Caffi

***gan y Diacon Stephen Roe***



Ar Sul olaf mis Tachwedd aeth cynulleidfa capel Ebeneser, Dolgellau i Siop Goffi Dolgellau lle y cynhaliwyd oedfa 'Capel Caffi', yn hytrach nag addoli yn y capel. Mae 'Capel Caffi' yn rhoi cyfle i bobl addoli mewn awyrgylch llai ffurfiol nag arfer, gan eistedd o gwmpas byrddau, cael paned a bwyta tamaid o gacen yn ystod y gwasanaeth.

Thema'r gwasanaeth hwn oedd 'Crist y Brenin'. Roedd yn cynnwys canu, gweddïo, darllen y Beibl a meddwl amdano, ond roedd y 'bregeth' yn eithaf gwahanol. Yn hytrach na gwrando ar bregethwr yn siarad am ryw ugain munud, gwahoddwyd y bobl i ystyried a thrafod cwestiynau fel –

- ♦ Pan fyddwch chi'n clywed y gair 'brenin', am beth fyddwch chi'n meddwl?
- ♦ Ym mha ffyrdd y mae Iesu'n debyg, ac yn annhebyg, i frenin neu frenhines yn ein byd ni?
- ♦ Dywedodd Iesu wrth droseddwr ar y groes, 'Heddiw byddi di gyda mi ym Mharadwys.' Sut y mae'r ffaith fod Iesu wedi addo lle ym Mharadwys i droseddwr yn effeithio ar sut rydych chi'n deall y nefoedd?

Cafwyd trafodaeth fywiog, a doedd hi ddim yn hawdd i fi fel arweinydd dynnu pawb yn ôl at ei gilydd. Yn amlwg roedd pobl wedi mwynhau cael cyfle i siarad a dysgu oddi wrth ei gilydd. Ac yn hytrach na gweddi yn cynnwys llawer o eiriau, gwahoddwyd pawb i ysgrifennu gweddi ei hun ar gerdyn siâp deilen a'i glymu ar goeden bren, wrth i ni wrando ar gân Taizé, 'Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas'.

Hoffem ddiolch i Pat a staff Siop Goffi am ein croesawu ni, ac am baratoi paned a chacennau blasus. Gobeithiwn drefnu 'Capel Caffi' eto yn fuan.

# Cadwyn o Gariad: Neges gan Ysgol Sul Bethel, Prestatyn



Roeddem wrth ein boddau i dderbyn y wobr gyntaf yn adran y plant am ein Coeden Nadolig yng Ngŵyl Coed Nadolig Prestatyn. Daeth thema ein Coeden eleni o gân enwog Clay Walker, 'The Chain of Love'. Neges y gân yw, os bydd rhywun yn gwneud cymwynas â ti, gwna dithau gymwynas â rhywun arall.

Gwnaethom gadwyni lliwgar i addurno'r goeden gan gofio fod pobl y byd i gyd yn wahanol, ac addurno calonnau gyda'r geiriau 'Cadwyn o Gariad' mewn gwahanol ieithoedd. Rydym yn gweddïo dros blant ar draws y byd ac yn gobeithio y bydd pawb yn dyst i'r gadwyn o gariad. Paid â gadael i'r gadwyn o gariad ddiweddu efo ti – gwna rywbeth caredig i rywun heddiw.





# Capel Ni yn Eglwys Iesu

## Pisgah, Rhiwlas

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i Carol Jones, sydd heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchwn Dilys Parry ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf.

**DERBYN TYSTYSGRIF**
Cyflwynodd ein gweinidog y Parchg Richard Gillion dystysgrif i Gareth Williams am ei wasanaeth yn casglu at genhadaeth yr ifanc. Diolch yn fawr i ti Gareth am dy waith ardderchog unwaith yn rhagor.



**CYDYMDEIMLO**
Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Jim a Rhian Evans-Hill. Bu farw tad Jim yn ddiweddar yn Norwich.
**GOHEBYDD .** EINIR WILLIAMS

## Ebeneser, Treuddyn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Barbara Milne y bu farw ei modryb, Mrs Beryl Roberts. Hefyd, gyda thristwch clywsom am farwolaeth Mrs Ena Pritchard yn 90 oed. Bu Ena yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Ebeneser ar hyd ei hoes. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Ebeneser, dan arweiniad ein gweinidog y Parchg Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i merch, Karen, a gweddill y teulu yn eu colled.

**DIOLCH A DYMUNIADAU GORAU**
Roedd ein gwasanaeth Carolau dwyieithog a gynhaliwyd ar Ragfyr 22ain yn llwyddiannus unwaith eto, gyda nifer dda o gyfeillion yn ymuno â ni. Trefnwyd y gwasanaeth gan ein gweinidog, y Parchg Eirlys Gruffydd Evans. Yn dilyn yr oedfa mwynhawyd sgwrs a phaned a chacen. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r Parchg Eirlys Gruffydd Evans am ei gwasanaeth a'i gofal drosom drwy gydol y flwyddyn. Dymunwn yn dda i holl i aelodau a ffrindiau'r capel, gan gofio'n arbennig am Mrs Jane Ann Roberts a Mrs Carys Huxley, sydd ddim yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**DIOLCH**
Diolch o waelod calon i Islwyn Evans am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd, yn y Gylchdaith ac ym Mhreswylfa. Deallwn na fydd yn mynychu pwyllgorau Ardal Dyffryn Conwy nac yn aelod yn Eglwys Preswylfa o hyn allan. Bu Islwyn yn aelod ffyddlon iawn gan deithio o Sul i Sul o Lanfairfechan i'r Gyffordd. Lle bynnag y bydd yn ymaelodi yn awr, dymunwn yn dda iddo a gobeithio y bydd yr iechyd yn gwella.

**CROESAWU**
Braf yw cael croesawu ein gweinidog newydd, y Parchg Trevor Hoggard a'i briod Cathie atom a hyfrydwch yw ei glywed yn cymryd oedfa drwy gyfrwng y Gymraeg, gan iddo fynd ati i ddysgu'r iaith yn dda mewn byr o amser.



**FFAIR NADOLIG**
Ar 30 Tachwedd cynhaliwyd ein ffair Nadolig gyda stondinau o bob math. Daeth tyrfa dda iawn i'r festri a phawb mewn hwyliau da ac yn cymdeithasu gyda mins pei a phaned. Gwnaed elw sylweddol iawn tuag at Eglwys Preswylfa a diolch yn fawr iawn am yr holl gymorth.
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

## Salem, Rhyd y Foel

**FFAIR NADOLIG**
Nos Wener 6 Rhagfyr cynhaliwyd ein ffair Nadolig flynyddol yn y ganolfan a chafwyd cefnogaeth dda. Roedd stondinau amrywiol ac fe gynhaliodd Beth a Steffan gystadleuaeth "I ble mae Siôn Corn yn mynd ar ei wyliau ddydd Sant Steffan?" (Yr ateb oedd i Ddulyn!) Noson lwyddiannus gyda'r neuadd yn llawn bwrlwm ac fe fwynhaodd pawb baned a mins peis.

**GWASANAETH NADOLIG**
Ar 22 Rhagfyr, a'r capel yn llawn, cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig undebol dwyieithog dan ofal ein gweinidog y Parchg Trevor Hoggard. Fe arweiniodd Angela Leighton Jones weddïau a chafwyd deuawd gan y ddwy chwaer fach Mari Wyn a Cadi; datganiad ar y ffliwt gan Cadi Pegg; darlleniadau gan Ifan, Steffan a Glenys ac unawd gan Beth. Roedd y plant ieuengaf, Gwil, Matthew, Mari Wyn a Cadi wedi gwisgo fel angylion a bugeiliaid. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Ina Wyn, merch fach Ceri a Mike, Bryn di Fêl. Diolch i Anna am gyfeilio ac i Menna ac Esther am addurno'r capel mor hardd. Roedd yr offrwm er budd *Gweithredu dros Blant* ac fe gasglwyd £200.00. Darparwyd paned a mins peis yn y festri yn dilyn y gwasanaeth.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Ebeneser, Eglwysbach

**PARTI**
Dydd Sul 8 Rhagfyr cynhaliwyd parti Nadolig Ebeneser. Hyfryd oedd gweld y festri'n llawn a'r plant yn mwynhau cyfarfod Siôn Corn. Diolch i bawb wnaeth helpu i baratoi'r bwyd ac addurno'r festri.

**OEDFA NADOLIG**
Ar fore Sul 15 Rhagfyr cawsom wasanaeth Nadolig arbennig dan arweiniad Royce Warner.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER







## Ebeneser, Ystumtuen

Daeth tyrfa gref i ddathlu'r Nadolig eleni. Daethom at ein gilydd yn ôl yr arfer ar ail Sul y mis. Braf oedd croesawu'r Parti Meibion lleol i gyflwyno eitemau gyda'r aelodau yn darllen a chanu i gyfoethogi'r oedfa. Yn ôl yr arfer Susan oedd yn cyfeilio i'r carolau a'r Côr. Braf oedd cael cwmni Bet Holmes yn absenoldeb ein gweinidog y Parchg Marty Presdee. Yn ystod y gwasanaeth roedd yn bleser rhoi anrhegion i'r plant sydd mor ffyddlon i'n gwasanaethau. Cyn troi am adre mwynhawyd lluniaeth hyfryd wedi'i baratoi gan yr aelodau. Diolch hefyd i Eirlys ac Eluned am wneud yn siŵr bod y capel yn edrych mor hardd. Cofiwch fod croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni ar ail Sul y mis.
**GOHEBYDD .** GERAINT ROBERTS

## Tabernacl, Llanfyllin

**DATHLU'R NADOLIG**
Ddechrau Rhagfyr fe gynhaliwyd y gwasanaeth Plygain blynyddol yn y Tabernacl. Arweiniwyd yr oedfa gan y gweinidog, ac wedi iddo gyhoeddi "bod y Blygein yn agored" daeth y carolwyr ymlaen i ganu. Canwyd carolau gan Eos Jones, Ieuan ap Siôn, Partïon Merched y Wawr, Gad, Briw, Yr Ogof, Henlle, a pharti Arfon Gwilym. Wedi i'r dynion ganu Carol y Swper mwynhawyd sgwrs dros swper yn y festri. Yna ar y nos Sul cyn y Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid, a baratowyd gan Eleri Llwyd a Rhian Lloyd Evans. Cymerwyd rhan gan Mared Price, Soffia Jones, Eos Jones, Erin Tomlinson, Siwan a Non Geraint, Teleri a Meg Lloyd Evans, Elen Jones a Brenda ac Elain Davies. Addurnwyd y capel yn hardd gan Llywela Roberts a'i hwyres, Celyn.

**CYDYMDEIMLO**
Yn fuan wedi iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, er mawr dristwch i bawb bu farw Mrs Eirwen Jenkins, un o aelodau ffyddlonaf y Tabernacl. Hi fyddai yn gofalu am y Cymun am lawer blwyddyn. Mae ein cydymdeimlad gyda Wyn a David, ei meibion a fu mor ofalus ohoni. Hefyd gyda'r holl gysylltiadau teuluol yn yr ardal.
Rhai eraill fu mewn profedigaeth yw Mr a Mrs Gwynfryn Jones, Llawr y Cwm. Bu farw chwaer Gwynfryn yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad atynt. Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu Hafod Lon wedi i Mrs Mary Lewis golli ei chwaer, Gwen, ddechrau'r Gaeaf. Cynhaliwyd ei hangladd yn y Tabernacl.

**DRWS AGORED**
A hithau'n wythnos Therapi Galwedigaethol roedd hi'n addas mai dwy therapydd galwedigaethol o'r ardal a ddaeth i siarad yn ystod mis Tachwedd. Daeth Mair Jones a Teleri Lloyd Evans i sôn am eu gwaith ac i egluro pa ddarpariaethau sydd ar gael er mwyn helpu pobl hŷn neu fethedig i gadw'n annibynnol yn eu cartrefi.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Yn ystod y flwyddyn, codwyd £1004 i elusen Gweithredu dros Blant trwy gynnal te prynhawn a diwrnod agored yng nghoedwig Caeau Gwynedd. Dymuna'r trefnwyr Keith a Decia Blacker ddiolch i bawb am eu haelioni.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

## Saron, Bethel, Arfon

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i Mr Morlais Williams ac i Mr Maldwyn Hughes, y ddau wedi treulio amser yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Rydym wedi eich colli o'r oedfaon yn Saron ers tro bellach – gobeithio y cewch chi adferiad llwyr a buan ac y cawn eich gweld yn ôl efo ni yn fuan iawn.
**GOHEBYDD .** RJ

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn ystod Tachwedd a Rhagfyr dan ofal y Parchedigion Peter Jennings a Glyn Thomas, Yr Hybarch Bernard Thomas, Tom Williams a Royce Warner. Ar 24 Tachwedd hefyd cawsom y fraint o groesawu organydd gwadd, sef Paul Joslin, oedd yn aros ynghyd â'i briod Gwenllïan gyda Heulwen Ellis, chwaer Gwenllïan. Ar ddiwedd gwasanaeth 22 Rhagfyr mwynhawyd paned a mins peis.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein dymuniadau da i'n gweinidog y Parchg Tudur Rowlands.



**FFAIR NADOLIG**
Ar 23 Tachwedd cynhaliwyd Ffair Nadolig yng Nghanolfan Eirianfa ac unwaith eto bu'n achlysur llwyddiannus gan wneud elw ariannol eithaf sylweddol. Diolch i bawb am eu holl gymorth. Byddwn yn cynnal 2 ffair / bore goffi yn ystod 2020 – ym mis Mai a mis Tachwedd yng Nghanolfan Eirianfa.



**CINIO BLYNYDDOL**
Dydd Sadwrn 9 Tachwedd daeth aelodau Pendref ynghyd i fwynhau cinio ym Melin Brwcws, Dinbych. Dyma'r pedwerydd tro i ni gynnal yr achlysur blynyddol yma ac unwaith eto fe fwynhaodd pawb y bwyd blasus a'r gwmnïaeth.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

## Bethel, Prestatyn

**GWASANAETHAU'R ADFENT A'R NADOLIG**
Diolchwn i bawb wnaeth helpu i addurno a pharatoi'r capel ar gyfer y Nadolig – gan addurno'r goeden, y ffenestri a'r Porth a glanhau'r canwyllbrennau, heb sôn am y swydd bwysicaf un sef gwneud y coffi! Mewn gwasanaeth arbennig ar Sul cyntaf yr Adfent, cawsom ein hatgoffa mor bwysig hefyd yw treulio amser tawel yng nghanol y prysurdeb.

Pleser oedd croesawu adrannau Merched y Wawr Rhanbarth Colwyn ar gyfer y Gwasanaeth Llith a Charol eleni. Yr Arweinydd oedd Angela a Geraint oedd yn cyfeilio. Roedd yn hyfryd gweld y capel yn llawn. I ddilyn y gwasanaeth mwynhawyd coffi a mins peis wedi eu paratoi gan aelodau o Ferched y Wawr Prestatyn. Derbyniwyd y casgliad gan Mrs Eiry Parry, un o aelodau Bethel, ar ran swyddogion cronfa Sant Cyndeyrn.

Roedd y capel yn orlawn hefyd ar gyfer cyngerdd arbennig i ddathlu'r Nadolig a chodi arian at Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych. Hyfryd oedd croesawu Côr Rygbi'r Gogledd a Chôr Ysgol y Llys, Prestatyn. Cafwyd unawd gan Alaw Geraint a chawsom glywed triawd Alaw, Alys a Beth, sy'n aelodau o'r Ysgol Sul. Gwnaethpwyd elw o dros £500 i'r Eisteddfod.

Yng ngwasanaeth Nadolig y plant – uchafbwynt y flwyddyn i lawer o'r aelodau – cafwyd stori'r Geni drwy ddarlleniadau a chyfraniadau cerddorol. Daeth plant Ysgol Sul Rehoboth i ymuno â ni hefyd. Diolch o galon i'r rhieni am helpu'r plant i ddysgu eu rhannau ac i bawb am helpu gyda'r coffi a'r cacennau ar ddiwedd y gwasanaeth.

Ar noswyl Nadolig cawsom wasanaeth hyfryd dan olau cannwyll gyda'n gweinidog y Parchg Brian Huw Jones. Mwynhawyd y tawelwch a'r awyrgylch bendithiol.

**GWASANAETH Y PLYGAIN**
Ar fore Sul yn dilyn y Nadolig cawsom wasanaeth Plygain undebol gyda Rehoboth. Diolch i bawb a gymerodd ran.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**
'Fy milltir sgwâr mewn hen fapiau' oedd testun cyfarfod mis Rhagfyr. Daeth Mr Alwyn Jones o Abergele atom a chawsom sgwrs ddiddorol iawn.

**HOBETH**
Mae Cymdeithas Chwiorydd Bethel a Rehoboth yn cyfarfod ar bnawn Llun olaf y mis ac ym mis Tachwedd y thema oedd 'Myfi yw Goleuni'r Byd'. Cawsom gyfle i wneud addurn bwrdd Nadoligaidd.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Ardal Bathafarn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant ag Enid a Hywel Edwards, Glyndyfrdwy o golli chwaer yng nghyfraith a ffrind annwyl iawn sef Margaret Edwards, Betws Gwerfyl Goch. Brawychwyd ardaloedd eang o glywed ei bod wedi colli ei bywyd mewn damwain. Colled enfawr i deulu, ffrindiau a'r fro.

Cydymdeimlwn hefyd â Iolo a Beryl Evans o golli brawd yng nghyfraith.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Ym mhwyllgor Merched Methodistaidd yng Ngwledydd Prydain, a gynhaliwyd ym Mathafarn dan lywyddiaeth Elizabeth, penderfynwyd cynnal cyfarfod y Gwanwyn nesaf yn Llandudno ar 25 Ebrill a gobeithir y bydd Angharad Tomos yn gallu dod i roi sgwrs bryd hynny. Yna ar 10 Hydref cynhelir cyfarfod creadigol ym Mathafarn.

**ARCHWILIAD**
Cafwyd ymweliad gan y Parchg Jennie Hurd a Delyth Davies pan drafodwyd y gorffennol, y presennol a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae gennym aelodau a ffrindiau teyrngar a gweithgar iawn.

**GWASANAETHAU'R NADOLIG A DECHRAU'R FLWYDDYN**
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Llys Awelon gan arweiniad y Parchg Martin Evans-Jones. Diolch i Lowri ac Olwen am y trefniadau. Bendithiol iawn hefyd yw cynnal gwasanaethau gyda'n gilydd fel Eglwysi tref Rhuthun.



**CYMDEITHAS BATHAFARN**
Diolch i Gareth Evans (un a fagwyd ym Mathafarn) am ddod i roi sgwrs hynod o ddifyr ar adeiladau hanesyddol Rhuthun. Mae wedi cyhoeddi llyfr cynhwysfawr a diddorol iawn am hyn. Aeth amryw o aelodau a chyfeillion Capel Bathafarn i gael cinio Sul blasus yng Nghanolfan Crefftau Rhuthun. Diolch i Lowri am y trefniadau. Y Sul hwnnw daeth Margaret Morgan i roi sgwrs i ni am waith 'Gweithredu Dros Blant' ac yn benodol yr Ymgyrch Anrhegion Nadolig. Diolch yn fawr i bawb am eu cyfraniadau hael i'r ymgyrch.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Shiloh, Tregarth

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Dymuniadau gorau i Iris Harper, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Y NADOLIG**
Nos Sul, Rhagfyr 22, cymerwyd rhan mewn Oedfa Deulu gan y plant a'r ieuenctid a chawsom sgwrs gan y Parchedig Jennie Hurd. Y cyfeilydd oedd Christine Morris Jones a hi hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth. Cafwyd lluniaeth ar ddiwedd yr oedfa a daeth Siôn Corn am dro i rannu anrhegion bychan i bawb oedd yn bresennol. Diolch i bawb am wneud yr achlysur yn un cofiadwy a bendithiol a diolch arbennig i Eirwen eto eleni am addurno'r capel yn hyfryd gyda rhosynnau a chanhwyllau. Ar Noswyl Nadolig bu Oedfa Gymun dan ofal ein gweinidog, y Parchedig Richard Gillion. Diolch iddo yntau am ei arweiniad ac i Wynn Williams am gyfeilio ar yr organ.

**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn falch iawn o weld Wynne Roberts wedi gwella ac yn ôl yn ei sedd arferol yn Shiloh. Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sydd heb fod yn teimlo yn rhy dda yn ddiweddar. Bu Dennis Griffiths am gyfnod mewn ysbyty ac mae yn awr yng Nghartref Cerrig yr Afon. Cofion cynnes iawn atoch, Dennis, gan bawb o Shiloh.

**AELOD NEWYDD**
Braf iawn ydi cael croesawu aelod newydd atom sef Norah O'Brien. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn fel un o deulu Capel Shiloh, Norah.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES



# BATHAFARN

## DATHLU CANRIF A HANNER





Thema Synod Cymru eleni yw "Estyn allan i'r gymuned" a chafwyd cyfle da i wneud hynny yn ddiweddar wrth ddathlu 150 mlwyddiant Capel Coffa Edward Jones, Bathafarn. Daeth tyrfa ynghyd o bell ac agos, ar gyfer achlysur cofiadwy iawn. Braf oedd croesawu pawb a gweld ffrindiau o holl gapeli hen gylchdaith Rhuthun – Hirwaen, Clocaenog, Graigfechan, Llanelidan ac wrth gwrs Bathafarn ei hun. Cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn. Cymerwyd rhan gan Siôn Hughes, Awen Morgan ac Edwina Stephen, i gyd yn blant Bathafarn. Cafwyd cyfraniadau gan Susan a Siân James, Gwyddelwern, Elwyn Ashford Jones a Marian Thomas, Corwen, ac Enid Edwards, Glyndyfrdwy. Un o'r emynau a ganwyd oedd 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro', a ganwyd (ar ben Moel Famau, yn ôl y sôn) pan ddaeth Edward Jones, Fferm Bathafarn, yn ôl o Fanceinion ar gychwyn cyntaf Wesleaeth Gymraeg. Swynol iawn oedd cyfraniadau'r bobl ifanc, Gwenan, Osian ac Ynyr, a'r eitem gerddorol gan Gwyn Hafod Elwy. Cafwyd sgwrs yn olrhain hanes yr achos gan Richard Francis Jones, gynt o gapel Clocaenog, ac anerchiad arbennig gan y Parchg Jennie Hurd. Y cyfeilyddion oedd Rhian a Catrin. Ymlaen wedyn i fwynhau te. Sôn am sgwrsio byrlymus, gweld lluniau lu a hel atgofion pleserus. Gwnaethpwyd y gacen hardd gan Nikki ac fe'i torrwyd gan Dilys Jones a Beryl Evans. Hoffem ddiolch i bawb am sicrhau llwyddiant y diwrnod. Diolch hefyd i Val Tŷ Bathafarn, am groesawu rhai o 'blant y mans' (Gwenan a Mari Noel Evans, hefyd Nerys a Delyth Ifor Williams) i ailymweld â'r tŷ lle buont yn byw yn eu hieuenctid.












# Wrth fynd heibio

### *gan William H Owen*

Roeddwn wedi ei weld fwy nag unwaith yn swatio yng nghornel y llwybr. Ei lygad, nid ei law, oedd yn awgrymu y byddai mymryn o arian yn dderbyniol. Ers i rywun awgrymu peidio â rhoi dim i'r rhai sy'n begera, anwybyddu ei apêl fud a wnes i y tro hwn eto. Ar y ffordd yn ôl, osgoi ei lygad a'i basio'n swil. Unwaith i mi wneud clywais lais y tu ôl i mi yn ei gyfarch a chynnal sgwrs fer a thawel ag ef.

Arafais fy ngham ac wrth i'r sgwrsiwr fy mhasio fedrwn i ddim peidio â dweud wrtho ei fod yn Gristion yn ymddwyn fel y gwnaeth. Mi fydda i'n credu mewn siarad efo nhw, meddai, ond fydda i ddim yn rhoi arian iddyn nhw. Does wybod be' wnân nhw efo'r pres. Ond mi af i brynu rhywbeth yn y siop – brechdan neu botel o ddŵr – iddyn nhw gael rhywbeth yn eu boliau.

Mwmiais ei fod yn un mewn mil. Ymatebodd drwy ddweud nad oedd yn gwybod pam fod hyn yn digwydd. Dach chi'n cofio peth fel hyn pan oeddach chi'n iau, gofynnodd. Doeddwn i ddim. Ar wahân i weld ambell drempyn yn chwilio am loches, mewn sgubor ac nid mewn stryd brysur.

Gadawsom ein gilydd yn sŵn geiriau gobaith y daw'n well byd yn fuan. Ond wrth wynebu blwyddyn newydd arall pa mor ffyddiog allwn ni fod? Mae'r ystadegau am ddigartrefedd a chysgu ar y strydoedd yn frawychus o uchel, a'r banciau bwyd ar eu prysuraf.

Cynyddodd y nifer sy'n cysgu allan 30 y cant mewn blwyddyn – o 240 i 313 – cynnydd mwy na Lloegr. Meddyliwch fod Shelter Cymru yn cyhoeddi fod deuddeg plentyn yn colli eu cartref bob dydd o'r flwyddyn; bod 3,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn ddigartref yn 2018, a'i bod yn frwydr ymdopi â'r galw ar eu gwasanaethau. Nid yw'n bosib iddynt ateb un o bob pum galwad i'w llinell gymorth.

I'r rhai a fwynhaodd Nadolig a dathliadau blwyddyn newydd mewn digonedd mae'n drybeilig o anodd dirnad y fath ystadegau. Mae hi'r un mor anodd cael atebion i'r aflwydd hwn yn ein cymdeithas. Oes, mae gan Lywodraeth ran fawr yn y datrysiad ond ni all Llywodraeth oresgyn y cyfan. Rhaid cyfaddef fod ffordd o fyw rhai unigolion yn rhemp ac wedi ei lethu gan gyffuriau ac alcohol. Nes y gellir arbed pobl rhag mynd ar gyfeiliorn i ddechrau mi fyddwn yn dal i weld sachau cysgu a blancedi ar ein strydoedd.

Gwybod sut mae gweithredu hynny yw'r cwestiwn. Ai gan yr eglwysi mae'r ateb, petai rhywun yn fodlon gwrando?





# O'r Pen Yma

## gan Angharad Tomos

Bûm yn yr ysbyty yn ddiweddar, a dyna brofiad diflas y gall hwnnw fod. Os ydych fel fi, rydych yn cymryd eich iechyd yn gwbl ganiataol. Fydda i byth yn meddwl amdano, ac yn ystyried fy iechyd fel hawl. Pan aiff rhywbeth o'i le, dwi'n flin am fod hyn yn styrbio fy mywyd. Nid fel hyn ddyliwn i fod, ac yn sicr, nid dyma sut oedd ein hen neiniau a theidiau. Byddent yn trysori iechyd, ac yn ddiolchgar iawn amdano. Pan fyddent yn ffarwelio ac yn trefnu i gyfarfod eto, dywedent bethau fel 'Os Duw a'i myn' neu 'os byddwn fyw ac iach'.

Wedi dyfodiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, rydan ni wedi stopio deud petha felly.

Rydym fel tasen ni'n disgwyl iechyd parhaol, a datrysiad cyflym pan awn yn sâl.

Rydw i'n sgwennu hwn cyn dydd olaf Ionawr, felly fedra i ddim cymryd yn ganiataol y bydd Brexit wedi digwydd pan fyddwch yn darllen hwn. Ond un canlyniad anffodus i'r holl fusnes yw fod casineb at bobl o'r tu allan i wledydd Prydain wedi cynyddu yn aruthrol. Roedd o yno dan yr wyneb drwy'r amser, ond mae Brexit fel petai wedi caniatáu i hiliaeth fod yn dderbyniol.

Hyn oeddwn yn meddwl amdano tra'n aros triniaeth. Gwraig o Wlad Thai ddaru edrych ar fy ffurflen, a Saesnes roddodd bigiad i mi. Meddyg Arabaidd wnaeth fy nhrin, a gwraig o dras Affricanaidd ofalodd amdanaf wedyn. Gwragedd Asiaidd afaelodd yn fy llaw i'm cysuro yn ystod y driniaeth. Lle yn y byd fydden ni heb gyfraniad pobl o'r tu allan i Brydain?

Yn yr ystafell aros cyn gadael, yr oeddem i gyd yn brolio'r gwasanaeth a gawsom, a mor ddiolchgar oeddem. Gan feddwl mor gas y mae pobl tuag at eraill o dras arall, hawdd iawn fyddai i'r rhain i gyd fod yn sych efo ni, er eu bod yn gorfod ein trin. Ond yr hyn brofodd pob un ohonom oedd caredigrwydd a chariad.

Y tro hwn, rydwi eisiau diolch am wasanaeth iechyd arbennig, ond yn fwy na hynny, am y staff o bob cenedl sy'n rhoi mwy nag sy'n rhaid iddynt er mwyn ein gwella. Mae'n wers bwysig mewn sut i drin cyd-ddyn.



# Pererindod i Santiago

### *gan Dr Gareth Tilsley*

Er nad ydw i wedi bod yn aelod o'r Eglwys Wesleaidd ers hanner canrif, anodd dwyn dyn oddi ar ei dylwyth, fel petai. Rydw i wrth fy modd yn cyfarfod Wesleaid a chael sgwrs sydd yn fy ailgysylltu â fy magwraeth. A dyna ddigwyddodd y dydd o'r blaen. Yn gyntaf cyfarfod Aluna, merch y diweddar John Alun Roberts – yna hanner awr yn ddiweddarach dyma daro ar fy hen gyfaill Robin sef neb llai nag un o olygyddion diwyd y *Gwyliedydd*. Achubodd yntau ar y cyfle i geisio dwyn perswâd arnaf i lunio pwt i'r *Gwyliedydd*, felly dyma ufuddhau!

Beth, tybed, sy'n denu aelodau o eglwysi anghydffurfiol i droedio'r llwybrau sydd mor gysylltiedig â defodau'r Eglwys Gatholig? Dyna a wnes i yn ddiweddar a mynd ar bererindod i Santiago de Compostela yng ngogledd Sbaen. Er imi ymweld â'r ddinas mewn car rai blynyddoedd yn ôl fe fu rhyw awydd ynof i wneud y daith mewn dull mwy priodol – sef drwy droedio'r llwybrau y bu'r hen saint yn eu defnyddio, a chyrraedd Cadeirlan Santiago wedi blino, ag olion traul ar fy esgidiau a'm traed. Felly, pan ddaeth cynnig i fynd yng nghwmni un ar ddeg o bererinion eraill doedd dim eisiau ailfeddwl.

Mae nifer o wahanol deithiau cydnabyddedig i gyrraedd Santiago, a rhai ohonynt yn gannoedd lawer o filltiroedd o hyd – rhai o ganol Ffrainc, eraill o dde Sbaen – ond taith gymharol fer a ddewiswyd. *Camino Inglés* yw'r enw ar ein taith ni, sydd yn cychwyn yn nhref Ferrol ac yn dilyn yr arfordir cyn mynd ymhellach i'r tir a chyrraedd Santiago ryw 112km yn ddiweddarach. Mae'n rhaid teithio o leiaf 100km ar droed cyn cael cydnabyddiaeth – ac efallai faddeuant am ein haml bechodau – gan y Pab a'r Eglwys Gatholig ar ben y daith.






Ffordd y Saeson yw ystyr *Camino Inglés*, ond hwn oedd y llwybr a ddefnyddid gan bererinion o Gymru, yr Alban ac Iwerddon hefyd. Byddent yn hwylio i Sbaen gan gyrraedd un o borthladdoedd Galisia, a cherdded gweddill y daith fel ninnau. Difyr yw meddwl mai dyma'r union lwybr mae'n debyg a ddefnyddiodd y 'Wraig o Gaerfaddon' yn y *Canterbury Tales*.

Ac wrth gwrs mae'n fwy na thebyg mai ar y llwybr hwn y daeth John Roberts o Drawsfynydd, a ddienyddiwyd yn 33 mlwydd oed yn 1610 am hyrwyddo Catholigiaeth ym Mhrydain, ac a wnaed yn Sant yn 1970.

Roeddem yn lwcus iawn i gael cwmni Ken Brassil, a fu'n archeolegydd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru, un sydd â gwybodaeth eang am deithiau Santiago ac am bensaernïaeth a hanes yr amryfal eglwysi a welsom ar y daith. Eglurodd sut y dylanwadodd Llwybr y Pererinion ar adeiladwaith yr eglwysi a welsom, drwy efelychu arddull oedd yn gyffredin yn Ffrainc. A chawsom sgwrs ddiddorol ar hanes Sant John Roberts gan un arall o'r cwmni.

Roeddem wedi trefnu llefydd i aros a phryd o fwyd bob nos, ac fe gludid ein bagiau o un lle i'r llall drosom, gan hwyluso'r daith yn fawr. Rhaid oedd cael stamp mewn llyfr *'Credencial del Pelegrino'* bob nos i ddangos lle roeddem wedi cysgu, ac roedd angen o leiaf un stamp arall gydol y dydd i brofi ein bod wedi cerdded y Camino, i'w gyflwyno i awdurdodau Cadeirlan Santiago ar ddiwedd y daith i gael ein tystysgrif. Roedd y stamp i'w gael mewn bwytai ar y ffordd – a pha well trefniant? Ein gorfodi i aros yma a thraw am baned neu bryd mwy sylweddol, a rhoi amser i ni sgwrsio â'n gilydd. Rwy'n siŵr na chollodd neb bwysau, er cerdded hyd at 20 milltir mewn un diwrnod.

Pa ots a yw esgyrn Sant Iago yn gorwedd yng Nghadeirlan Santiago a pha ots, fel yr honnir, a yw un o fysedd John Roberts yno hefyd! Pwrpas pererindod yw rhoi cyfle i ni adnabod ein hunain yn well ac osgoi'r gofynion dyddiol a gawn adref. Os cewch gyfle, a phâr o esgidiau cryf a chyfforddus, ewch chithau a gwnewch yr un modd!

SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

- Trwy Eluned Williams (am siarad) £40.00
- David Jones, Pentre Helygain £25.00
- Rhodd Cardiau Nadolig £2.00
- Pendref, Dinbych (casgliad Nadolig) £133.00

Anfonwyd cyfanswm o £200.00 yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am bob cyfraniad.

***Ymgyrch Casglu Anrhegion Nadolig.***

Diolch, unwaith eto, i'r eglwysi a'r unigolion sydd wedi cyfrannu i'r ymgyrch. Aethpwyd â 3 llond car o roddion i'r swyddfa yn Longfields, Wrecsam. Maent yn gwybod fod y Nadolig ar y gorwel, medden nhw, pan welan nhw ni yn troi i fyny gyda'r lot cyntaf o anrhegion. Mae'r prosiectau i gyd yn gwerthfawrogi'ch haelioni.

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com



# TUDALEN Y PLANT

## Beth ydi Masnach Deg?

Os ydi pobl yn gweithio'n galed i dyfu bwyd, dylen nhw gael digon o bres amdano. Digon i brynu pethau angenrheidiol iddyn nhw a'u teuluoedd a chael dŵr glân i'w yfed. Dyna beth sy'n deg.

Yn anffodus, dydi hyn ddim yn digwydd bob amser. Ond os ydych chi'n gweld y logo Masnach Deg ar rywbeth, rydych chi'n gwybod bod y bobl sydd wedi'i dyfu yn cael pris teg amdano.




Faint o'r pethau blasus yn y fasged sy'n dangos y logo yma?


**24 Chwefror – 8 Mawrth ydi Pythefnos Masnach Deg.**

Gofynnwch i'ch teulu a'ch athrawon gewch chi gymryd rhan. A chofiwch fod Dewi Sant, ein nawddsant ni, wedi dweud wrthym am wneud y pethau bychain!


**Pa un o'r lluniau yma o fananas, A, B, C neu CH sydd yn union yr un fath â'r llun uchaf?**




A



B



C



CH

